**ADRODDIAD I'R CABINET**

24 Hydref 2017

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Gareth Thomas

**Pwnc:** Ad-drefnu Darpariaeth Addysg yn Nalgylch Y Berwyn

**Swyddog Cyswllt:** Garem Jackson – Pennaeth Addysg

---

**Y penderfyniad a geisir/pwrpas yr adroddiad**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw ceisio caniatâd Cabinet y Cyngor i gynnal ymgynghoriad statudol yn unol ag Adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, yn nalgylch Y Berwyn ar y model a ffafrir, sef cynnig i gau ysgolion Beuno Sant, Bro Tegid ac Ysgol y Berwyn yn nhref Y Bala, a sefydlu Campws Dysgu 3-19, cyfrwng Cymraeg, statws Cymunedol ar safle presennol Ysgol y Berwyn – yn weithredol o fis Medi 2019.

---

## 1. Cefndir

1.1 Mae'r Cyngor wedi gweithredu Strategaeth '*Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd'* ers ei mabwysiadu yn Ebrill 2009. Yn ei gyfarfod 9 Hydref 2012, penderfynodd y Cabinet ar '*Gynllun Blaenoriaethau – Maes Trefniadaeth Addysg'*, ac mae hwnnw wedi ei sylfaenu ar y strategaeth hon.

1.2 Yn unol â Strategaeth *Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd* cafwyd trafodaethau ynglŷn â darpariaeth addysg yn nalgylch Y Berwyn ers 2009.

1.3 Ar ddydd Mawrth, 27 Mehefin 2017, penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd:

*"i. Tynnu'r cynnig i sefydlu Campws Dysgu 3-19 Gwirfoddol a Reolir (VC, Eglwys yng Nghymru) yn ei ôl, yn unol ag adran 55(5) o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.*

*ii. Gofyn am adroddiad pellach argymhelliad ar gyfer Medi 2017 i gyflwyno model amgen ar gyfer ymgynghoriad sy'n cyfarch a chyd-fynd a gofynion yr Achos Busnes sydd wedi ei gymeradwyo gan y Llywodraeth*

*iii. Dirprwyo'r hawl i Aelod Cabinet Addysg gynnal rhag-ymgynghoriad gyda'r Eglwys yng Nghymru yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013 ac adrodd ar y canlyniad ym mis Medi 2017."*

1.4 Mae'r adroddiad sy'n egluro'r rhesymau dros y penderfyniadau uchod ar gael ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/ycabinet

## 2. Datblygu model/cynnig ar gyfer ymgynghoriad statudol

2.1 Fel sy'n hysbys, mae'r achos busnes a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn 2015 wedi denu buddsoddiad o £10.27m i uwchraddio ac adeiladu estyniad ar adeilad presennol Ysgol y Berwyn, er mwyn datblygu Campws Dysgu 3-19 yn nhref Y Bala. Oherwydd hynny, wrth ddatblygu'r modelau ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, roedd rhaid sicrhau fod y model ffafredig newydd a gynigir i'r Cabinet yn cyfarch ac yn ateb gofynion llawn yr achos busnes, er mwyn sicrhau na fydd y newid yng nghyfeiriad y prosiect yn torri amodau a thelerau'r grant.

2.2 Fel rhan o'r broses o ddatblygu modelau, addaswyd y rhestr hir o opsiynau a gyflwynwyd fel rhan o'r ymgynghoriad yn 2015. Noder, er bod yr achos dros newid yn glir, mae'r model '*Gwneud Dim'* yn cael ei gynnwys at ddiben cymharu.


| **Model 1** | Gwneud dim. |
|---|---|
| **Model 2** | • Cau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant a chreu Campws Dysgu (CD) ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn y Bala<br>• Yna creu cydbwyllgor dalgylchol rhwng y CD a'r tair ysgol wledig, sef ysgolion OM Edwards, a'r ysgolion sydd wedi eu ffederaleiddio, sef Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn. |
| **Model 3** | • Cau ysgolion y Berwyn a Bro Tegid a chreu CD ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn y Bala.<br>• Sefydlu Ymddiriedolaeth Gydweithio Leol rhwng Ysgol Beuno Sant a'r CD<br>• Ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn yn parhau fel ag y maent. |
| **Model 4** | • Cau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid, Beuno Sant, OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn a chreu CD dalgylchol ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn y Bala |
| **Model 5** | • Cau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant a chreu CD ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn y Bala<br>• Cynllunio i ffedereiddio'r tair ysgol wledig, sef ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn gyda'r CD. |
| **Model 6** | • Cau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant a chreu CD ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn y Bala<br>• Cau ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn a sefydlu Ysgol Ardal Aml-safle ar safleoedd presennol y tair ysgol wledig, sef ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn<br>• Cydweithio rhwng yr Ysgol Ardal Aml-safle 'r CD. |
| **Model 7** | • Cau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant a chreu CD ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn y Bala<br>• Cau ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn a sefydlu Ysgol Ardal Aml-safle ar safleoedd presennol y tair ysgol wledig, sef ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn<br>• Cynllunio i ffedereiddio'r CD a'r Ysgol Ardal Aml-safle wledig. |

2.3 Datblygwyd dogfen sy'n crynhoi prif fanteision ac anfanteision y modelau a ystyriwyd uchod. Gwerthuswyd yr opsiynau gwahanol a gellir gweld cymhariaeth bellach o'r modelau yn erbyn ffactorau yn y strategaeth *'Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd'*, ffactorau yn y Cod Trefniadaeth, gweledigaeth dalgylch Y Berwyn a ffactorau perthnasol eraill. Gellir gweld y gwerthusiad opsiynau llawn yn **Atodiad 1**.

## 3. Y cyfeiriad ar gyfer y dalgylch

3.1 Yn dilyn ystyriaeth lawn o'r opsiynau posib, y cyfeiriad awgrymir fel testun yr ymgynghoriad statudol yw **Model 2:**

Sefydlu Campws Dysgu (3-19), Cyfrwng Cymraeg, Categori Cymunedol, ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn y Bala
Yna creu cydbwyllgor dalgylchol rhwng y CD a'r tair ysgol wledig, sef ysgolion OM Edwards, a'r ysgolion sydd wedi eu ffederaleiddio, sef Ysgol Ffridd y Llyn ac Ysgol Bro Tryweryn.




3.2 Golyga hyn:

i. cau ysgolion Bro Tegid, Beuno Sant ac Ysgol y Berwyn yn nhref Y Bala, a sefydlu Campws Dysgu 3-19, Cyfrwng Cymraeg, Categori Cymunedol, ar safle Ysgol y Berwyn, yn weithredol o fis Medi 2019.
ii. creu cydbwyllgor dalgylchol rhwng y Campws Dysgu a'r tair ysgol wledig, sef ysgolion OM Edwards, a'r ysgolion sydd wedi eu ffederaleiddio, sef Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn.

3.3 Hwn yw'r opsiwn ffafredig yn dilyn ystyried nifer o ffactorau, sydd yn cynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i:

- Ansawdd yr Addysg
- Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran o fewn dosbarthiadau
- Niferoedd disgyblion a llefydd gweigion
- Amgylchedd Ddysgu – ansawdd ac addasrwydd adeiladau
- Statws / Categori Ysgol
- Arweinyddiaeth a staffio
- Y Gymuned
- Yr Iaith Gymraeg
- Ardrawiad Cydraddoldeb
- Adnoddau Ariannol
- Ffactorau Daearyddol

Ceir manylion pellach am rai o'r ystyriaethau a restrir uchod yn **atodiad 2**.

## 4. Effeithiau'r model arfaethedig ar y Gymuned, yr iaith Gymraeg a Chydraddoldeb

4.1.1. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru (*Cod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013*) yn nodi bod angen cynnal asesiad effaith cymunedol, ieithyddol a chydraddoldeb fel rhan o unrhyw gynnig i ad-drefnu ysgolion. Cwblhawyd asesiadau hyn ar y rhestr hir o fodelau posib. Cynhaliwyd yr asesiadau hyn fel rhan o'r broses ymgynghori yn 2015, ac mae copi o'r asesiadau gwreiddiol hynny ar gael yn **atodiad 3**. Bydd yr holl asesiadau yn cael eu diweddaru fel rhan o'r broses ymgynghori statudol os penderfynir parhau â'r cynnig, ac mae'r fersiwn ddiweddaraf (drafft) o'r asesiad cydraddoldeb wedi ei gynnwys yn **atodiad 3** yn ogystal. Dyma grynodeb o ganfyddiadau'r asesiadau:

### 4.2 Y Gymuned

4.2.1. Gan nad oes unrhyw ysgol wledig yn cau, a bod yr ysgolion yn nhref y Bala yn symud i un lleoliad sef y Campws Dysgu, does dim effaith nac oblygiadau cymunedol o wireddu'r model ffafriedig.

4.3 **Yr Iaith Gymraeg**

4.3.1. Gan nad oes unrhyw safle gwledig yn cau, yna nid oes yna unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg. Bydd disgyblion Bro Tegid a Beuno Sant yn trosglwyddo i'r Campws Dysgu, a bydd disgyblion oedran 11-19 yn parhau i dderbyn addysg mewn sefydliad fydd yn cynnwys yr un trawstoriad o ddisgyblion ag Ysgol Y Berwyn ar hyn o bryd. Bydd categori iaith pob ysgol yn y dalgylch yn parhau'r un fath, sef categori Cyfrwng Cymraeg. Ceir cyfle hefyd i gryfhau ymhellach weithrediad polisi iaith Gwynedd drwy sicrhau dilyniant yn y defnydd o'r iaith Gymraeg, yn addysgol ac yn gymdeithasol.

4.4 **Cydraddoldeb**

4.4.1. Rhoddodd yr asesiad sylw penodol i elfennau cydraddoldeb gwahanol megis hil, rhyw, anabledd, iaith, crefydd neu gred ac oedran. Mae'r asesiad yn nodi'r sefyllfa bresennol a'r polisïau a threfniadau sydd mewn lle a fyddai yn sicrhau fod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd â hawliau cyfartal.

4.4.2. Oherwydd bod nifer o fodelau yn nodi'r posibilrwydd o effeithio darpariaeth addysg gynradd Eglwysig, comisiynodd y Cyngor asesiad pellach gan ymgynghorydd annibynnol. Roedd yr asesiad yma yn asesu'r galw am wahanol fathau o ysgolion yn y dalgylch fel bo modd ystyried y galw yn lleol wrth benderfynu ar yr opsiwn a ffafrir. Mae'r model ffafriedig, yn ddibynnol ar y categori cyfreithiol a ffafrir yn cael effaith ar y dewis o wahanol ddarpariaeth addysgol yn y dalgylch, o ran addysg gymunedol ac Eglwysig. Mae'r ffactor yma yn cael ystyriaeth lawn yn rhan 5 o'r adroddiad, ac mae modd gweld yr asesiad cydraddoldeb a'r asesiad angen am wahanol fathau o ysgolion yn **Atodiad 3** i'r adroddiad hwn.

4.4.3. Wedi pwyso a mesur y ffactorau perthnasol, deuir i'r casgliad bod sicrwydd yr hyrwyddir cyfleoedd cyfartal yn gadarnhaol yn sgil y cynnig a bod mesurau mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithlon ac aflonyddu. Mae trefniadau mewn lle yn ogystal fydd yn monitro ac yn adolygu'r sefyllfa.

**5. Ystyriaethau wrth bennu categori cyfreithiol**

5.1 Wrth ddatblygu'r cynnig yma, rhaid ystyried categori cyfreithiol y model newydd. Ar hyn o bryd, mae dewis o addysg gynradd o'r statws cyfreithiol canlynol:
- Cymunedol
- Gwirfoddol a Gynorthwyir (VA) gyda dynodiad crefyddol (Eglwys yng Nghymru)

5.2 Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, diffinnir ysgolion fel rhai:
- Cymunedol
- Gwirfoddol a Reolir (VC) gyda dynodiad crefyddol (Eglwys yng Nghymru)
- Gwirfoddol a Gynorthwyir (VA) gyda dynodiad crefyddol (Eglwys yng Nghymru)

5.3 Mae'r Cyngor a'r Eglwys yng Nghymru yn gyd-ddarparwyr addysg yn nalgylch y Berwyn. Mae Ysgol Beuno Sant yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir (VA) gyda chymeriad crefyddol (Eglwys yng Nghymru). Mae Ysgol y Berwyn, Ysgol Bro Tegid, Ysgol OM Edwards, Ysgol Bro Tryweryn ac Ysgol Ffridd y Llyn, yn ysgolion Cymunedol. Mae natur a chymeriad crefyddol ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir (VA) yn dylanwadu ar:
- gymeriad yr ysgol
- aelodaeth y corff llywodraethol
- perchnogaeth y safle

Mae'r tabl isod yn dangos categorïau'r ysgol yn nalgylch Y Berwyn, a nifer y disgyblion yn y categorïau:

| Categori | Cynradd (Medi 2017) | | Uwchradd (Medi 2017) | |
|---|---|---|---|---|
| | **Nifer yr ysgolion** | **Nifer y disgyblion** | **Nifer yr ysgolion** | **Nifer y disgyblion** |
| Cymuned | 4 | 353 | 1 | 323 |
| Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir (VA) | 1 | 38 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **5** | **391** | **1** | **323** |

5.4 **Yr angen am wahanol fathau o ysgolion**

5.4.1. Er mwyn deall y farn ynglŷn â'r angen am addysg o wahanol gategorïau yn nalgylch Y Berwyn, cynhaliwyd asesiad ym mis Ebrill 2014. Fel rhan o'r broses o bennu'r opsiwn ffafredig ar gyfer ymgynghoriad statudol, fe aeth y Cyngor ati i ail ymweld â chanfyddiadau'r adroddiad yn 2014

5.4.2. Cynhaliwyd yr asesiad trwy ddosbarthu holiadur i rieni disgyblion ym mhob un o'r 6 ysgol yn nalgylch Y Berwyn. Dychwelwyd 160 o holiaduron. Rhai pwyntiau allweddol i'w nodi yw'r ffaith mai ansawdd yr addysg a nodwyd fel y ffactor pwysicaf i rieni wrth iddynt ddewis ysgol i'w plant - mae hyn yn glir gyda 76.9% o'r ymatebwyr yn nodi mai'r "unig beth sy'n bwysig (i mi) yw bod gan fy mhlentyn addysg dda". Nid oedd unrhyw farn y naill ffordd na'r llall ynghylch categori'r ysgol. Cadarnhawyd mai materion addysgol - ansawdd, perthynas dda gyda'r ysgol, safon yr adnoddau a'r amgylchedd dysgu yw'r prif ffactorau sy'n cael eu hystyried yn bwysig mewn ysgol.

5.4.3. Mewn cwestiwn arall, gofynnwyd i'r ymatebwyr osod gwahanol ffactorau yn ymwneud â'u hysgolion yn nhrefn eu pwysigrwydd. Drwy gyfuno'r ymatebion, mae'r adroddiad yn gosod y ffactorau yn y drefn pwysigrwydd a ganlyn.

| Gradd | Ffactor |
|---|---|
| 1af | Ansawdd yr addysg |
| 2il | Perthynas dda rhwng rhieni ac athrawon |
| 3ydd | Adeiladau ac adnoddau ysgol sydd o safon uchel |
| 4ydd | Mae'r ysgol yn cefnogi datblygiadau ysbrydol a moesol y plant |
| 5ed | Pellter teithio i'r ysgol |
| 6ed | Y disgwyliad ffurfiol bod gwerthoedd Cristnogol yn rhan annatod o fywyd yr ysgol |
| 7fed | Darpariaethau Ychwanegol (e.e. clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol) |

5.4.4. Mae'r adroddiad llawn wedi ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad (**Atodiad 3**).

5.5 **Rhag-ymgynghori gyda'r Eglwys yng Nghrymu**

5.5.1. Yn unol â phenderfyniad y Cabinet ar 27 Mehefin 2017, cynhaliwyd rhag-ymgynghoriad gyda'r Eglwys yng Nghymru rhwng 31 Awst a 28 Medi 2017. Derbyniwyd ymateb yr Eglwys yng Nghrymu yn ystod y cyfnod rhag-ymgynghori trwy gyfrwng llythyr dyddiedig 12 Medi 2017.

5.5.2. Dywedodd yr Eglwys:

*"Anghenion disgyblion presennol a'r rhai sydd i ddod yn y dyfodol sy'n flaenoriaeth i ni; dymuniad Esgobaeth Llanelwy ydy cefnogi ffordd ymlaen sy'n diogelu'r buddsoddiad o £10miliwn ac sy'n rhoi rhwydd hynt i'r ysgol gael ei hagor cyn gynted ag sy bosib er mwyn i blant Y Bala, Penllyn a'r gymuned ehangach allu elwa arni.*

*Buon ni'n trafod y mater am yn hir gyda swyddogion Cyngor Gwynedd, aelodau etholedig lleol a Chadeiryddion y Llywodraethwyr ac rydyn ni i gyd yn cytuno y dylen ni weithio gyda'n gilydd i ddod â'r mater hwn i derfyn boddhaol.*

*Er mwyn galluogi hyn i ddigwydd, fe wnaiff yr Esgobaeth, mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd, gytuno â chais y Cyrff Llywodraethol a'r gymuned ehangach ynghylch statws y campws dysgu 3-19 newydd. Fe fydd hyn yn caniatáu cynnal ymgynghoriad newydd, ond ar yr un pryd yn gadael i'r gwaith adeiladu fynd rhagddo'n ddirwystr, gan ddiogelu'r buddsoddiad yn Y Bala a Phenllyn."*

5.5.3. Mae ymateb llawn yr Eglwys wedi ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn **(Atodiad 4).**

5.6 **Perchnogaeth tir a defnydd o dderbyniadau cyfalaf**

5.6.1. Mae safleoedd Ysgol Bro Tegid ac Ysgol y Berwyn yn eiddo i Gyngor Gwynedd. Mae safle Ysgol Beuno Sant yn eiddo i'r Eglwys yng Nghymru.

5.6.2. Parthed Ysgol y Berwyn, os caiff y Campws Dysgu ei ddynodi'n ysgol:

- Yr Eglwys yng Nghymru â statws Gwirfoddol a Reolir neu Wirfoddol a Gynorthwyir, byddai angen trosglwyddo perchenogaeth safle Ysgol y Berwyn i'r Eglwys yng Nghymru.
- Statws cymunedol, ni fyddai unrhyw newid i berchnogaeth y safle, gan y byddai'r Awdurdod Lleol yn parhau i fod yn berchen ar safle Ysgol y Berwyn.

5.6.3. Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad blaenorol, bydd y Cyngor yn sefydlu trefniadau ffurfiol hir dymor hefo'r Corff Llywodraethol a'r gymuned i sicrhau a rheoli unrhyw gyfleusterau cymunedol a rennir a fwriedir eu hymgorffori ar safle'r ysgol, er budd yr ysgol a'r gymuned.

5.6.4. Bydd unrhyw dderbyniadau cyfalaf yn cael eu cynnwys yng Nghynllun Rheoli Asedau'r Cyngor. Bydd hyn yn ffurfio rhan o fuddsoddiad y Cyngor o £5.135M tuag at y datblygiad yn nalgylch Y Berwyn a phrosiectau cyfalaf eraill a wneid gan y Cyngor.

5.7 **Y categori cyfreithiol a ffafrir**

5.7.1. Mae dewis categori ar gyfer y Campws Dysgu yn achosi oblygiadau o ran natur darpariaeth addysgol y dalgylch. Byddai dynodi'r Campws fel ysgol gymunedol yn cael gwared ar ddarpariaeth gynradd yr Eglwys yng Nghymru yn yr ardal. I'r gwrthwyneb, byddai dynodi'r Campws fel ysgol yr Eglwys yng Nghymru yn dileu darpariaeth ysgolion cynradd ac uwchradd cymunedol yn nhref y Bala. Wrth ddynodi categori cyfreithiol ar gyfer y model dewisol, rhoddwyd ystyriaeth i ganlyniad trafodaethau lleol diweddar (fel nodwyd yn adroddiad Cabinet 27 Mehefin 2017), yn ogystal â chanfyddiadau'r asesiad o'r angen am wahanol fathau o ysgolion (2014) a gadarnhaodd mai ansawdd yr addysg yw'r prif ffactor sy'n cael ei ystyried yn bwysig mewn ysgol.

5.7.2. Ar y sail hyn oll, cynigir, yn nhermau categori cyfreithiol, mai statws 'gymunedol' yw'r opsiwn ffafriol ar gyfer cynnal ymgynghoriad statudol.

5.7.3. Rydym yn croesawu pob sylw ynglŷn â chategori cyfreithiol y cynnig a ffafrir, boed yr ymgynghorai o blaid neu yn erbyn y categori cymunedol a ffafrir.

## 6. Oblygiadau'r Cynnig

6.1 **Ystyriaethau staffio**

6.1.1. Petai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo byddai unrhyw effaith ar y staff presennol yn cael ei drafod yn llawn gyda ysgolion Bro Tegid, Beuno Sant ac Ysgol y Berwyn a'u cynrychiolwyr. Mae Cyngor

Gwynedd wedi datblygu polisi staffio cynhwysfawr, ar y cyd â'r Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd cyfathrebu'n glir ac agored yn chwarae rhan greiddiol mewn gweithredu unrhyw gynigion.

6.1.2. Petai'r cynnig yn cyrraedd y pwynt lle bydd ysgol yn cael ei sefydlu, bydd disgwyl i'r Corff Llywodraethol Cysgodol benodi staff ar gyfer yr ysgol newydd. Bydd y Gwasanaeth Personél ac adran Addysg y Cyngor ar gael i roi cymorth a chyngor i'r Corff Llywodraethu a'r staff ynglŷn â'r broses.

6.2 **Y broses o sefydlu'r Campws Dysgu fel endid**

6.2.1. Er mwyn sefydlu'r Campws Dysgu ystyriwyd oblygiadau cyfreithiol a chyfansoddiadol o wneud hynny. Rhaid bydd cau'r ysgolion dan sylw (Bro Tegid, Beuno Sant ac Ysgol y Berwyn), ac agor Campws Dysgu ar safle presennol Ysgol y Berwyn.

6.2.2. O greu'r Campws Dysgu byddai angen sefydlu Corff Llywodraethu Cysgodol, cyfansoddiad yr ysgol a phenodi staff. Mater i'r Corff Llywodraethu Cysgodol fydd y strwythur staffio.

6.2.3. Wrth weithredu'r cynnig yma bydd dalgylchoedd yr ysgolion presennol yn cael eu haddasu. Defnyddir dalgylchoedd er mwyn adnabod ble mae'r ysgol agosaf i rieni/plant yn ddibynnol ar ble maent yn byw. Dyma sut mae'n bosib gwireddu Polisi Cludiant a Mynediad yr Awdurdod.

6.2.4. Fodd bynnag, oherwydd mai cau dau safle yng nghanol tref Y Bala yw'r bwriad, a symud y ddarpariaeth addysgol i safle Ysgol y Berwyn, yna ni ragwelir unrhyw newid i'r trefniadau cludiant presennol, ac ni ragwelir effaith ar Bolisi Mynediad yr Awdurdod.

6.3 **Y dyddiad agor a'r trefniadau ar gyfer y flwyddyn academaidd 2018-19**

6.3.1. Mae'r gwaith adeiladu yn bwrw ymlaen yn dda ar y safle ac rydym yn rhagweld y bydd cyfleusterau newydd, yn dilyn £10.27m o fuddsoddiad, ar gael i drigolion lleol fanteisio'n llawn o'r adnoddau o fis Medi 2018 ymlaen. Oherwydd y newidiadau diweddar a fu yn y sefyllfa yn ymwneud â threfniadau llywodraethol/rheolaethol y Campws arfaethedig, mae llithriad wedi bod yn y rhaglen waith ar gyfer sefydlu'r Campws. O ganlyniad, daethpwyd i'r casgliad nad yw hi'n bosib mwyach agor y Campws yn Medi 2018 yn unol â'r cynnig gwreiddiol.

6.3.2. Mae'r adran Addysg wedi ystyried sawl opsiwn cyn dod i gasgliad ar ddyddiad agor y cynnig newydd, ac fe dderbyniwyd mewnbwn penaethiaid, cadeiryddion llywodraethwr ac aelodau lleol y dalgylch ar yr opsiynau hynny mewn cyfarfod a gynhaliwyd gyda hwy ar y 4ydd o Hydref 2017. Rhai o'r opsiynau a gynhigiwyd yn ystod y cyfarfod hwnnw oedd agor y Campws yn Ionawr neu Ebrill 2019. Ystyriwyd hefyd yr opsiwn o leoli a rhedeg y tair ysgol unigol (sy'n destun y cynnig) ar safle Ysgol y Berwyn yn ystod y flwyddyn academaidd 2018-19, ond mynegwyd pryderon ynglŷn ag ymarferoldeb yr opsiwn yma gan y byddai'n golygu cynnal tri strwythur staffio ar un lleoliad.

6.3.3. Wedi trafodaeth frwd ynglŷn â'r ffordd ymlaen, cafwyd consensws mai'r opsiwn fwyaf ymarferol ac addas yn yr achos yma fyddai agor y Campws yn Medi 2019 gan roi trefniadau cadarn yn eu lle rhwng yr ysgol uwchradd a'r ddwy ysgol gynradd yn y dref i sicrhau fod disgyblion yr ysgolion cynradd yn cael manteisio o'r adnoddau o fis Medi 2018 ymlaen.

6.3.4. Os gweithredir y cynnig felly, bydd Ysgol y Berwyn, Ysgol Bro Tegid ac Ysgol Beuno Sant yn parhau yn agored hyd 31 Awst 2019, h.y. hyd fydd y Campws yn agor ar 1 Medi 2019. Yn y cyfamser, bydd swyddogion yr adran Addysg yn gweithio'n agos gydag Ysgol Bro Tegid, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol y Berwyn a'u cyrff llywodraethol i sefydlu cynllun pontio ar gyfer ysgolion cynradd y dref i sicrhau defnydd rheolaidd a phwrpasol gan yr ysgolion hynny o'r adnoddau newydd ar safle Ysgol y Berwyn yn ystod y flwyddyn cyn i'r Campws agor yn swyddogol yn Medi 2019.

## 7. Camau Nesaf

7.1 Os bydd y Cabinet yn cefnogi'r argymhellion a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, bydd angen cynnal cyfnod o ymgynghoriad statudol yn unol â gofynion y Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 ac arweiniad y Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013), ar y cynnig i sefydlu Campws Dysgu 3-19 gyda statws Cymunedol yn nhref Y Bala.

7.2 Yn dilyn hynny, bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno gerbron y Cabinet er mwyn adrodd ar ganlyniad yr ymgynghoriad.

7.3 Bydd yn ofynnol wedyn i'r Cabinet gloriannu'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn amodol ar farn y Cabinet, penderfynu a ddylid cyhoeddi Rhybudd Statudol i weithredu'r cynnig ai peidio. Os cyhoeddir Rhybudd Statudol, bydd cyfnod o 28 diwrnod i unrhyw un wrthwynebu. Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet am benderfyniad terfynol. Rhaid cofio bod rhai sefyllfaoedd lle bydd penderfyniad terfynol y gallu cael ei gyfeirio at y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013).

7.4 Yn ddarostyngedig ar benderfyniadau'r Cabinet, dyma amserlen amlinellol ar gyfer camau nesaf y broses:

| Camau'r Daith | Amserlen Amlinellol |
|---|---|
| Adroddiad Cabinet – Ceisio caniatâd i ymgynghori ar yr opsiwn a ffafrir | 24 Hydref 2017 |
| Cyfnod Ymgynghori Statudol Campws Dysgu 3-19 | 22 Tachwedd 2017 – 10 Ionawr 2018 |
| Adroddiad Cabinet yn dilyn ymgynghoriad statudol | 13 Chwefror 2018 |
| Cyhoeddi Rhybudd Statudol a chyfle i ymgynghorai wrthwynebu | Mawrth 2018 |
| Penderfyniad terfynol gan Gabinet y Cyngor (posib i'r cynnig cael ei at gyfeirio at Weinidog Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru*)* | Ebrill 2018 |

## 8. Argymhellion

8.1 **Argymhellir felly:**

i. I ymgymryd â phroses o ymgynghori statudol yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 i gau Ysgol Bro Tegid, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol y Berwyn. Y bwriad yw y bydd yr ysgolion yn cau ar 31 Awst 2019.

ii. I ymgymryd â phroses o ymgynghori statudol yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 ar yr opsiwn a ffafrir, sef i sefydlu Campws Dysgu 3-19 Cyfrwng Cymraeg statws Cymunedol, ar safle presennol Ysgol y Berwyn – yn weithredol o 1 Medi 2019.

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

"*Mae'r adroddiad wedi bod yn destun mewnbwn gan y Gwasanaeth Cyfreithiol felly dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb."*

**Y Pennaeth Cyllid:**

*"Mae hanes hir i'r cynlluniau hyn, ac ar bob cam mae swyddogion Cyllid wedi cydweithio gyda'r Adran Addysg wrth ddatblygu ffigyrau ariannol. Felly, gallaf gadarnhau fy mod yn fodlon gyda chywirdeb y ffigyrau sydd yn yr adroddiad. Rwyf yn argyhoeddedig fod yr achos busnes yn parhau'n gadarn, ac mae rhesymau amlwg i gefnogi'r argymhellion a gweithredu yn ddi-oed, trwy ddilyn trefn briodol."*